

PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

A GYFLWYNWYD / TABLED ON

13/12/99

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

OPIN-1999-0010

**Ffioedd Dysgu Addysg Uwch – Sefydliu Pwyllgor Ymchwilio/
Higher Education Fees - Establishment of a Committee of
Inquiry**

21 Jun 1999 gan/by

Jocelyn Davies, Sue Essex, Jonathan Morgan

20 llofnodwyr/subscribers:

Helen Mary Jones

Owen John Thomas MA

Phil Williams

Janet Ryder

Pauline Jarman

Michael German OBE

William Graham JP

Peter Rogers
David Melding
Rhodri Glyn Thomas
Mick Bates
Glyn Davies
Alun Cairns
Gareth Jones
Nicholas Bourne LLB LLM
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Peter Black
Jenny Randerson
Karen Sinclair
Kirsty Williams

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn datgan ei fod yn cefnogi sefydlu Pwyllgor i Ymchwilio i ganlyniadau codi ffioedd dysgu ar fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru. Dylai'r Pwyllgor efelychu'r Pwyllgor Ymchwilio sy'n cael ei sefydlu gan Brif Weinidog yr Alban, Donald Dewar. Dylai'r Pwyllgor gyhoeddi adroddiad cyn pen chwe mis a dylai academyddion proffesiynol, pobl leyg a chynrychiolwyr myfyrwyr fod yn aelodau ohono.

The National Assembly declares its support for the establishment of a Committee of Inquiry into the consequences of the imposition of tuition fees on higher education students in Wales. This Committee should be modelled on the Committee of Inquiry that is being set up, by the First Minister of Scotland, Donald Dewar. The Committee should report within six months, and its membership should consist of independent academics, lay people and student representatives.

OPIN-1999-0013 Annibyniaeth Pwyllgorau'r Cynulliad/ Independence of Assembly Committees

23 Jun 1999 gan/by
Mick Bates, Peter Black, Michael German OBE, Jenny Randerson, Kirsty Williams

5 llofnodwyr/subscribers:

Elin Jones
Owen John Thomas MA
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
John Marek
Gareth Jones

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn falch bod y broses o ethol aelodau i Bwyllgorau'r Cynulliad wedi dod i ben ac mae'n edrych ymlaen at weld eu rôl, pan fydd gofyn, yn datblygu fel cyfryngau pwerus i ffurfio polisi. Mae'r Cynulliad yn cydnabod swyddogaeth hollbwysig y pwylgorau hyn o ran ffrwyno pwerau'r Weithrediaeth a dwyn Ysgrifenyddion y Cynulliad i gyfrif. Mae'r Cynulliad o'r farn bod cynnal y ddwy swyddogaeth o les mawr o ran sicrhau'r Llywodraeth agored a chynhwysol y mae'r Cynulliad yn amcanu ati. Yn unol â hynny, ni fydd y Cynulliad yn derbyn unrhyw ymgais gan y Weithrediaeth i grebachu na thanseilio pwerau, statws nac annibyniaeth Pwyllgorau'r Cynulliad.

The National Assembly welcomes the completed election of members to the Assembly's committees and looks forward to their developing role, where appropriate as powerful vehicles of policy formation. The Assembly also recognises the pivotal position these committees occupy in balancing the powers of the Executive and holding Assembly Secretaries to account. The Assembly believes that upholding both these roles is in the best interests of the open and inclusive Government to which the Assembly aspires. Accordingly, the Assembly will not accept any attempt by the Executive to diminish or undermine the powers, stature or independence of the Assembly Committees.

OPIN-1999-0023 Iaith Arwyddion Prydain (IAP) / British Sign Language (BSL)

09 Jul 1999 gan/by
Mick Bates, Peter Black, Michael German OBE

31 llofnodwyr/subscribers:

Elin Jones
Lynne Neagle
Phil Williams
John Griffiths LLB
Sue Essex
David Melding
Christine Chapman
Nicholas Bourne LLM
Huw Lewis
Janice Gregory
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Alison Halford
Val Feld
John Marek

Alun Cairns
Janet Ryder
Lorraine Barrett
Helen Mary Jones
Rhodri Glyn Thomas
Geraint Davies
Jonathan Morgan
William Graham JP
Glyn Davies
Brian Gibbons FRCGP
Christine Humphreys
Pauline Jarman
Karen Sinclair
Kirsty Williams
Jocelyn Davies
Jenny Randerson
Richard Edwards

Mae'r Cynulliad yn nodi bod 4,000 o bobl wedi bod ar orymdaith iaith Arwyddion Prydain (IAP) yn Llundain (27 Mehefin). Er gwaethaf deddfwriaeth Ewropeaidd a basiwyd 10 mlynedd yn ôl, nid yw'r Llywodraeth wedi cydnabod defnyddwyr IAP fel lleiafrif ieithyddol, er bod 62,000 o bobl yn y DU yn defnyddio IAP fel iaith gyntaf.

Mae'r Cynulliad yn gobeithio y bydd IAP yn cael cydnabyddiaeth swyddogol, ac y bydd hyn yn golygu y bydd y byddar yn cael mynediad fel pawb arall at wybodaeth, gofal iechyd a chyfleoedd gwaith yn yr iaith o'u dewis nhw. Bydd hyn yn golygu y gall plant byddar gael addysg o'r un safon â phlant sy'n clywed, gan ganiatáu iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith eu hunain yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

The Assembly notes 4,000 people attended the British Sign Language (BSL) march in London on 27 June. Despite European legislation passed 10 years ago, the Government has not recognised BSL users as a linguistic minority although 62,000 people in the UK use BSL as their first language.

The Assembly hopes that BSL receives official recognition, as this will give deaf people equal access to information, health care and employment opportunities in their preferred language. It will entitle Deaf children to the quality of education that hearing children enjoy and allow them to develop their own language skills during their formative years.

**OPIN-1999-0039 Diwrnod Gwyl Blynyddol yng Nghymru ar Ddydd Gwyl Dewi Sant, 1 Mawrth/
An Annual Welsh Public Holiday on St David's Day, March 1st**

01 Oct 1999 gan/by
Nicholas Bourne LLB LLM, Alun Cairns, David Davies, Glyn Davies

4 llofnodwyr/subscribers:

Peter Rogers
David Melding
Jonathan Morgan
Peter Black

Mae'r Cynulliad hwn yn mynnu bod 1 Mawrth, Dydd Gwyl Dewi Sant, yn cymryd lle Gwyl Banc Calan Mai fel diwrnod gwyl blynyddol. Drwy wneud hynny, tanlinellir hunaniaeth unigryw Cymru o fewn y Deyrnas Unedig gan roi cyfle i bobl Cymru ddathlu diwylliant, hanes a thraddodiadau eu gwlad.

The Assembly demands the replacement of the May Day Holiday with an annual public holiday on St David's Day, March 1st. This would underline Wales'unique identity within the UK and allow all Welsh people to celebrate our Welsh culture, history and tradition.

Amendments A01

07 Dec 1999 gan/by
John Griffiths LLB, Owen John Thomas MA

8 llofnodwyr/subscribers

Elin Jones
Phil Williams
Carwyn Jones LLB
Brian Gibbons FRCGP
Cynog Dafis
Gareth Jones
Jocelyn Davies
Helen Mary Jones

Dileu'r geiriau: "cymryd lle Gwyl Banc Calan Mai fel diwrnod", a chynnwys y gair "ddiwrnod"

Delete the words: "the replacement of the May Day Holiday"

OPIN-1999-0045 ‘Pardwn Mileniwm’ i Dic Penderyn /Millennium Pardon for Dic Pendrynn

18 Oct 1999 gan/by
Huw Lewis

30 llofnodwyr/Subscribers:

Helen Mary Jones
Ieuan Wyn Jones
Elin Jones
Jocelyn Davies
Cynog Dafis
Janet Davies
Michael German OBE
Phil Williams
Peter Black
Rhodri Glyn Thomas
Karen Sinclair
Mick Bates
Ann Jones
Lynne Neagle
Alun Pugh
Gwenda Thomas
Kirsty Williams
Brian Hancock
Geraint Davies
Alison Halford
Janice Gregory
Ron Davies
Christine Chapman
Val Feld
John Griffiths LLB
Carwyn Jones LLB
Lorraine Barrett
Brian Gibbons FRCGP
Richard Edwards
Owen John Thomas MA

Dic Pendrynn, merthyr cyntaf y dosbarth gweithiol yng Nghymru. Crogwyd Dic Pendrynn am ei ran yng Ngwrthryfel Merthyr ym 1831, yn seiliedig ar dystiolaeth annibynadwy a di-sail, ac er mwyn dangos esiampl i bobl eraill y dosbarth gweithiol yn Ne Cymru a allai fod wedi'u hysgogi i protestio am yr anghyfiawnderau enbyd yr oeddynt yn eu dioddef. Mae'r Cynulliad yn galw ar yr Ysgrifennydd Cartref i wneud hyn fel arwydd o ewyllys da dinasgar i bobl Merthyr Tudful ac i unioni camweinyddiaeth cyfiawnder y gorffennol mewn pryd i ddathlu'r Mileniwm.

The National Assembly calls upon the Home Secretary to offer a 'Millennium Pardon' to Dic Pendrynn, the first Welsh working class martyr. Dic Pendrynn was hanged for his part in the Merthyr Rising of 1831, based on unreliable and unsafe evidence, as an example to other working class people in South Wales who might have been driven to protest at the appalling injustices they suffered. The Assembly calls on the Home Secretary to make this civic gesture to the people of Merthyr Tydfil and to right a miscarriage of justice from the past in time to celebrate the Millennium.

OPIN-1999-0046 Cymhwyster Lefel A Defnyddio'r Gymraeg i Oedolion / Using Welsh for Adults - A Level qualification

19 Oct 1999 gan/by
Cynog Dafis, Christine Humphreys, Gareth Jones

5 llofnodwyr/Subscribers:

Helen Mary Jones
Owen John Thomas MA
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Geraint Davies
Rhodri Glyn Thomas

Mae'r cynulliad yn datgan ei werthfawrogiad o'r cymhwyster Lefel A Defnyddio'r Gymraeg i Oedolion sy'n cynnwys elfen gref o weithgarwch cymdeithasol drwy'r Gymraeg ac yn pwysleisio sgiligu ymarferol; yn pryderu bod perygl i ddyfodol y cymhwyster oherwydd gofyniad gan ACCAC i greu eu cymhwyster Lefel A Cymraeg ail-iaith; ac yn galw am hyblygrwydd gan ACCAC a Llywodraeth Cymru er mwyn diogleu'r Lefel A Defnyddio'r Gymraeg i Oedolion sy'n sail i gwrs blaengar, llwyddiannus a phoblogaidd.

The Assembly declares its appreciation of the A Level qualification in Using Welsh for Adults which includes a strong element of social activity through the medium of Welsh and an emphasis on practical skills; is concerned about the future of the qualification following ACCAC's request to create their own Second Language Welsh A Level qualification; and calls

on ACCAC and the Government of Wales to be flexible in order to safeguard the Using Welsh for Adults A Level qualification, which has proved to be an innovative, successful and popular course.

OPIN-1999-0049 Mudiad yr Undebau Credyd/ Credit Union Movement

21 Oct 1999 gan/by

Lorraine Barrett, Peter Black, Jocelyn Davies, John Griffiths LLB

29 llofnodwyr/Subscribers:

Helen Mary Jones
Ann Jones
Phil Williams
Brian Gibbons FRCGP
Karen Sinclair
Cynog Dafis
Gareth Jones
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Pauline Jarman
Jenny Randerson
Michael German OBE
Kirsty Williams
Christine Chapman
Geraint Davies
Alison Halford
Ieuan Wyn Jones
Val Feld
Brian Hancock
Janet Ryder
Owen John Thomas MA
Huw Lewis
Lynne Neagle
Ron Davies
Mick Bates
Richard Edwards
Elin Jones
Carwyn Jones LLB
Janice Gregory
Rhodri Glyn Thomas

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol yr Undebau Credyd - 21 Hydref 1999 – dymuna'r Cynulliad Cenedlaethol ddathlu mudiad yr Undebau Credyd yng Nghymru drwy gydnabod ei gyfraniad i fywyd economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Galwn ar aelodau'r Cynulliad i gefnogi argymhellion mudiad yr Undebau Credyd yn ei Ddogfen Strategaeth a'i Adroddiad a gyflwynwyd i'r Cynulliad. Dymunwn Iwyddiant parhaus i'r mudiad Undebau Credyd a gobeithiwn y bydd yn cael chwarae rhan bwysig yn natblygiad parhaus Cymru.

The National Assembly wishes today on International Credit Union Day (October 21 1999) to celebrate the Credit Union movement by supporting the contribution it makes to the economic and social life of Wales. The National Assembly for Wales will help launch its latest reports today. We call on members of the Assembly to support the main recommendations in the reports to ensure the continued evolution of the credit union movement in Wales. We wish the credit union movement in Wales continued success and hope to see it play a major part in the continued development of Welsh life.

OPIN-1999-0061 Llywodraeth Llafur yn gwrthod helpu cymunedau difreintiedig Cymru/Labour Government's refusal to help Wales' deprived communities

30 Nov 1999 gan/by Geraint Davies, Helen Mary Jones

4 llofnodwyr/Subscribers:

Elin Jones
Owen John Thomas MA
Gareth Jones
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn tynnu sylw at yr argyfwng sy'n wynebu ffermydd bychain ac yn arbennig ffermwyr sy'n denantiaid; mae'n gresynu fod y Llywodraeth Lafur yn gwrthod mynd i'r afael â'r caledi yng nghefn gwlad Cymru a bod y Llywodraeth yn dal i lusgo'i draed yn achos talu iawndal i lowyr sy'n dioddef o Froncitis ac emffysema croniog; yn galw ar bawb yng Nghymru i gefnogi ffermwyr sy'n wynebu colli eu gwaith a'u cartrefi, ac yn galw yn arbennig ar y Llywodraeth i gymryd camau brys i ddatrys y problemau economaidd dirfawr sy'n wynebu ein cymunedau gwledig a'n hen cymunedau glofaol.

The National Assembly draws attention to the crisis hitting small farms and in particular tenant farmers; regrets the Labour government refuses to tackle the hardship being endured by rural

Wales and that the Government continues to drag its feet over compensation payments to miners suffering from Bronchitis and Chronic Emphysema; calls on everyone in Wales to rally round farmers facing the loss of their work and home, calls in particular on the government to take urgent steps to resolve the dire economic problems facing our rural and former coal mining communities.

OPIN-1999-0062 Gwrthod arian Amcan 2 i'r Barri/Exclusion of Barry from Objective 2 Funding

30 Nov 1999 gan/ by David Melding, Jonathan Morgan, Jenny Randerson, Owen John Thomas MA

14 llofnodwyr/Subscribers:

Brian Hancock
Janice Gregory
Richard Edwards
Val Feld
Phil Williams
Gareth Jones
Pauline Jarman
Cynog Dafis
Nicholas Bourne LLB LLM
Helen Mary Jones
Glyn Davies
Alun Cairns
William Graham JP
Peter Black

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthwynebu argymhelliaid Cabinet y Cynulliad i eithrio'r Barri o fap ariannu Amcan 2. Mae angen yr arian hwn yn fawr ar y dref gan fod ganddi lefelau uchel o ddieithriwch cymdeithasol a phroject glan y môr y mae arno angen rhagor o adnoddau i'w ddatblygu. Mae'r Cynulliad yn galw ar y Cabinet i ailystyried ei argymhelliaid i eithrio'r Barri o fap Amcan 2.

This National Assembly for Wales opposes the recommendation of the Assembly Cabinet that Barry be excluded from the Objective 2 funding map. This funding is greatly needed in the town because it has wards with high levels of social exclusion and a waterfront project that needs further resources for development. This Assembly calls on the Cabinet to reconsider its recommendation to exclude

Barry from the Objective 2 map.

Amendments A01

07 Dec 1999 gan/by John Griffiths LLB

2 llofnodwyr/Subscribers

Huw Lewis
Lynne Neagle

Dileer ar ôl "Cymru" ac ychwanegor:

"yn croesawu camp y Cynulliad wrth negodi â'r DTI fel Adran arweiniol Llywodraeth y DU, gyfanswm o 270.000 o bobl i'w cynnwys yn Amcan 2, yn ogystal â'r 1.9 miliwn ar gyfer Amcan 1;

yn goficio am yr ardaloedd hynny a fethodd â chael statws Amcan 2 o drwch blewyn, y byddai eu cynnwys yn y cynnig ar gyfer ardal Amcan 2 wedi mynd â chyfanswm y boblogaeth dros y trothwy o 270.000;

yn tynnu sylw at y cymorth ariannol trosiannol sydd ar gael i ardaloedd a gwmpasir gan Amcan 2 a 5b heddiw, ac yn cydnabod y bydd y rhaglen Amcan 3 newydd yn cynorthwyo ardaloedd nad ydynt yn derbyn cymorth Amcan 1 a 2."

Delete after "Wales" and insert:

"welcomes the achievements of the Assembly in negotiating with DTI as the lead UK Government Department an envelope of 270.000 population to be included in Objective 2, in addition to the 1.9 million in Objective 1;

regrets the near-miss areas, whose inclusion in the Objective 2 area proposal would have taken the total population over the 270.000 ceiling;

draws attention to the availability of transitional funding assistance to areas covered by Objective 2 and 5b today, and recognises that the new Objective 3 programme will also assist areas not getting objective 1 and 2 assistance."

OPIN-1999-0063 Jiwbilî 2000 a G7/Jubilee 2000 and the G7

30 Nov 1999 gan/by
Rhodri Glyn Thomas

9 llofnodwyr/Subscribers:

Elin Jones
Helen Mary Jones
Owen John Thomas MA
Gareth Jones

Phil Williams
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Geraint Davies
Mick Bates
Michael German OBE

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan ei gefnogaeth i ymgyrch Jiwbil 2000 dros ddileu dyledion gwledydd tlawd, a geilw ar y Prif Weinidog Blair a llywodraeth y DU i wneud datganiad sy'n gydnaws â datganiad yr Arlywydd Clinton ar bolisi newydd yr UD ynglynnâ dileu dyledion.

The National Assembly for Wales declares its support for Jubilee 2000's campaign for the write off of poor countries debts and calls on Prime Minister Blair and the UK Government to match President Clinton's announcement of a new United States policy on debt cancellation.

OPIN-1999-0072 Is-swyddfeydd Post a Chael Budd-daliadau drwy Daliadau wedi'u Hawtomeiddio/Sub Post Offices and Automated Benefit Payments

07 Dec 1999 gan/by Brian Gibbons FRCGP

4 llofnodwyr/Subscribers:

Elin Jones
Owen John Thomas MA
Kirsty Williams
Peter Black

Mae'r Cynulliad hwn yn pryderu y gallai'r cynigion presennol i sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu budd-daliadau drwy daliadau wedi'u hawtomeiddio olygu y byddai nifer o is-swyddfeydd post yn ardaloedd trefol, cymoedd ac ardaloedd gwledig Cymru yn llai hyfyw. Credwn felly na ddylid symud ymlaen â'r cynigion hyn nes bod eu heffaith lawn ar ddieithrwch cymdeithasol wedi'i hasesu.

This Assembly is concerned that the present proposals to increase the uptake of automated benefit payments could reduce the financial viability of many sub-post offices in both urban, valley and rural Wales. We therefore believe that these proposals should not be proceeded with until their full impact on social exclusion is assessed.

OPIN-1999-0074 Diwygiadau Swyddfeydd Post/

Post Office Reforms

08 Dec 1999 gan/by
Brian Hancock

5 llofnodwyr/Subscribers:

Michael German OBE
Elin Jones
Phil Williams
Owen John Thomas MA
Mick Bates

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pryderu'n fawr ynghylch yr argoel anochel o gau Swyddfeydd Post ledled Cymru oherwydd diwygiadau arfaethedig y Llywodraeth i'r Gwasanaeth Post; mae'n nodi y byddai gweithredu'r system Trosglwyddo Credyd yn Awtomatig (ACT) i dalu budd-daliadau ar gyfer y flwyddyn 2003 yn rhoi bodolaeth cannoedd o Swyddfeydd Post yn y fantol, a bod y diwygiadau arfaethedig yn dangos amarch llwyr i wasanaeth sylfaenol sydd wrth wraidd ein cymunedau, gan wthio'r henoed a phobl o dan anfantais ymhellach at ymylon cymdeithas, ac felly gelwir ar y Llywodraeth i ailystyried y cynigion niweidiol a byrbwyl hyn.

The National Assembly for Wales is extremely concerned about the inevitable closure of Post Offices throughout Wales due to the Government's proposed reforms to the Postal Service; notes that the implementation of the Automated Credit Transfer (ACT) system of paying benefits scheduled for 2003 will put the existence of hundreds of Post Offices at risk and that the proposed reforms show a total disregard for a fundamental service that lies at the heart of our communities, pushing elderly and disadvantaged people further to the margins of society and calls upon the Government to reconsider these damaging and ill thought proposals.

OPIN-1999-0077 Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm/ Millennium Stadium Trust

08 Dec 1999 gan/by Glyn Davies, John Griffiths LLB

4 llofnodwyr/Subscribers:

Nicholas Bourne LLB LLM
Brian Hancock
Lorraine Barrett
Peter Rogers

Mae'r Cynulliad hwn o'r farn y dylai fod yna gynrychiolaeth ehangach ar Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm as y dylai gynnwys yn arbennig gynrychiolwyr o Gyngor Chwaraeon Cymru. Cafodd yr ymddiriedolaeth ei chreu er budd campau lleiafrifol ledled Cymru as mae arni ar hyn o bryd 3 ymddiriedolwr o'r WRU, 3 o Gyngor Sir Caerdydd ac un yr un o ACCAC, y CBI a Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol.

This Assembly believes that there should be wider representation and in particular Sports Council of Wales representation on the Millennium Stadium Trust. The trust was established for the benefit of minority sports throughout Wales and currently comprises 3 trustees from the WRU, 3 from Cardiff County Council and one from ACCAC, CBI and National Lottery Charities Board.

OPIN-1999-0078 Ffermio Organig/Organic Farming

09 Dec 1999 gan/by Mick Bates, Nicholas Bourne LLB LLM, Glyn Davies, Peter Rogers, Rhodri Glyn Thomas
1 llofnodwyr/Subscribers:

Elin Jones

Mae'r Cynulliad yn croesawu'r targedau penodol yn y Mesur Targedau Bwyd a Ffermio Organig y dylai o leiaf 30% o dir ffermio'r Deyrnas Unedig ac o leiaf 20% o'r bwyd a fwyteir yn y Deyrnas Unedig fod yn organig erbyn y flwyddyn 2010, a chred y dylid pennu targedau tebyg ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad yn nodi hefyd a gofid bod 70% o'r bwyd organig a fwyteir yn y Deyrnas Unedig yn cael ei fewnforio a chred y dylid pennu targedau penodol ar gyfer hybu bwyd organig yng Nghymru ymhllith defnyddwyr yng Nghymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

This Assembly welcomes the specific targets set out in the Organic Food and Farming Targets Bill that by the year 2010 at least 30% of UK farmland and at least 20% of the food consumed in the UK should be organic, and believes that similar targets should be set for agriculture in Wales.

This Assembly also notes with concern that 70% of organic food consumed in the UK is imported, and believes that specific targets should be set for the promotion of organic food from Wales amongst consumers in Wales and other parts of the UK.

OPIN-1999-0079 Hiliaeth Wrth-Gymreig/Anti Welsh Racism

10 Dec 1999 gan/by Christine Chapman, Michael German OBE, John Griffiths LLB

7 llofnodwyr/Subscribers:

Elin Jones

Lorraine Barrett

Owen John Thomas MA

Ron Davies

Carwyn Jones LLB

Janice Gregory

Mick Bates

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi a gofid yr hiliaeth wrth-Gymreig gyson ar gyfryngau'r Deyrnas Unedig a geilw ar yr awdurdodau rheoleiddio i gymryd camau cadarn yn erbyn unrhyw sylwadau neu ddelweddau sy'n bychanu unigolion ar sail treftadaeth genedlaethol, ddiwylliannol neu ieithyddol.

The National Assembly notes with concern elements of persistent anti-Welsh racism in the UK-wide media and calls on the regulatory authorities to take firm action against any remarks or images which demean individuals on the basis of their national, cultural or linguistic heritage.

OPIN-1999-0080 Champagne o Ffrainc a'r Mileniwm/French Champagne and the Millennium

13 Dec 1999 gan/by Elin Jones

1 llofnodwyr/Subscriber:

Jocelyn Davies

Yng ngoleuni parhad gwaharddiad Ffrainc ar fewnforio cig eidion o Brydain, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu y dylai pobl beidio â phrynu champagne i ddathlu'r Mileniwm ac y dylent ddewis gwinoedd byrlymus a gynhyrchwyd mewn rhannau eraill o'r byd, yn enwedig gwinoedd o Gymru.

In light of the continuing French import on British beef, the National Assembly for Wales believes that people should refrain from purchasing champagne to celebrate the Millennium and should use sparkling wines produced elsewhere in the world, particularly Welsh wines.